**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 15 Mawrth 2024 am 10.00 am**

**Yn bresennol:** Louise Fleet (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Cynghorwyr - Abertawe**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | E J King | R V Smith |
| L R Jones | | |

**Cynghorwyr - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| W Carpenter | R Mizen | C Phillips |
| N Jenkins | | |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Andrew Dulley | Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu |
| Louise Miskell | Prifysgol Abertawe |
| Janet Watkins | Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Clare Davies | Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell - CNPT |
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Tracey McNulty and Chris Saunders

## 15 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Andrew Dulley - Eitem 4 ar yr Agenda - Personol

Y Cynghorydd R Smith – Eitem 4 (8) ar yr Agenda – Personol a rhagfarnol a gadawodd yn ystod y drafodaeth.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

## 17 Materion yn codi.

Rhoddodd yr Archifydd Sirol ddiweddariad llafar byr ynghylch Y Storfa.

Amlinellodd fod y contractwyr yn parhau ar y safle ac mai dyddiad cwblhau'r prosiect yw mis Mai 2025 o hyd. Mae'r adeilad yn parhau i fod yn y cam "dymchwel" ar hyn o bryd. Byddai'n holi ymhellach ac yn diweddaru'r Aelodau ynghylch yr opsiynau ar gyfer ymweliad safle, fel y'u trafodwyd yn y cyfarfod blaenorol, maes o law.

Cyn bo hir, bydd staff yn ymgymryd â chwrs hyfforddiant cadwraeth sy'n ymwneud â symud archifau, a ddylai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

**18 Adroddiad Archifydd y Sir.**

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Chwefror 2024.

<u>Cyllideb Refeniw 2024/2025</u>

Cyflwynodd Kim Collis adroddiad a diweddariad llafar a rhoddodd fanylion Cyllideb Refeniw y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd ar gyfer 2024/2025, y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd.

Cyfeiriodd at ei ymddeoliad arfaethedig ym mis Mehefin 2024 a nododd y byddai'r rôl yn cael ei hadfer i fod yn rôl amser llawn wrth symud ymlaen, gan fod ei rôl bresennol wedi esblygu i ganiatáu i Gyngor Abertawe lenwi swydd statudol y Swyddog Diogelu Data.

Nododd mai dim ond cynnydd bychan a gafwyd ar gyllideb y llynedd. Gwnaed darpariaeth yn y gyllideb ynghylch cadwraeth ddigidol wrth symud ymlaen a nodir hyn yn ei adroddiad yn ddiweddarach yn yr agenda, yn ogystal ag arian ar gyfer yr Hyfforddai Archifau yn y dyfodol.

Amlinellodd y symiau a gedwir yng nghronfeydd arian wrth gefn hyfforddiant casgliadau ac archifau ar 31 Mawrth 2024.

Nododd aelodau'r adroddiad llafar.

<u>Y Defnydd o'r Gwasanaeth</u>

Adroddodd am y ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gwasanaeth drwy ei lwyfannau amrywiol yn bersonol ac ar-lein.

<u>Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol</u>

Dywedodd fod dwy ysgol wedi derbyn sesiynau yn ystod y chwarter.

Mae'r staff hefyd wedi cynnal sgyrsiau ar gyfer grŵp hanesyddol lleol.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal sesiynau misol ar gyfer Cymdeithas Hanes Teulu Morgannwg, Cangen Abertawe.

Mae staff hefyd wedi bod yn rhan o grŵp cydweithredol gyda'r adran Addysg Athrawon ym Mhrifysgol Abertawe, Archifau Richard Burton, Llyfrgell Glowyr De Cymru a Phartneriaeth i lunio pecynnau adnoddau archifol hawdd eu cyrchu ar gyfer athrawon, a gallai hyn fod yn adnodd rhagorol wrth symud ymlaen.

Archif Ddarlledu Cymru

Adroddodd fod Corneli Clip wedi'i lansio yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe ar 15 Ionawr wrth i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gynnal seremoni fechan.

Er y bydd Corneli Clip wedi'i leoli yno pan fydd y Gwasanaeth Archifau yno, bydd Corneli Clip newydd wedi'i gynnwys yn Y Storfa yng ngofod Llyfrgell Glowyr De Cymru. Dylai'r lleoliad hwn yng nghanol y ddinas ddod â mwy o ymwelwyr a defnydd i'r cyfleuster.

Catalog Ar-lein Archifau

Amlinellodd fod materion technegol yn parhau gyda'r feddalwedd sy'n gysylltiedig â chwilio'r catalog ar-lein. Cafwyd problem ym mis Hydref 2023, ac mae staff TG Cyngor Abertawe a'r darparwr allanol yn parhau i weithio tuag at ddatrysiad.

Mae datrysiad dros dro wedi'i drefnu, fel bod y catalog ar-lein yn parhau i fod ar gael i ddefnyddwyr drwy'r Hwb Archifau.

Cadwraeth Ddigidol

Amlinellodd, yn dilyn trafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol ar y mater hwn, fod y Gwasanaeth Archifau'n ymrwymo i gonsortiwm i gynnal cadwraeth ddigidol (archifo a chadw cofnodion a grëwyd yn wreiddiol yn ddigidol a chofnodion wedi'u digideiddio'n barhaol). Mae'r consortiwm sydd wedi datblygu yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys Archifau Gorllewin Morgannwg, Morgannwg, Gwent, Conwy a Gogledd-ddwyrain Cymru ynghyd â Phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Gwnaed darpariaeth yn y gyllideb i dalu am y tanysgrifiad blynyddol i ddarparwr masnachol y gwasanaethau hyn.

Disgwylir i gyllid allanol fod ar gael i gefnogi swydd tymor byr i gynorthwyo gyda'r broses o sefydlu'r ystorfa ddigidol ac mae'r Gwasanaeth Archifau wedi bod yn trafod gyda Phrifysgol Abertawe a PCYDDS ynghylch cyflwyno cais ar y cyd am gyllid o'r fath. Disgwylir i'r gofyniad ariannu cyfatebol disgwyliedig fod o gwmpas £5,000-10,000.

Mae pwysigrwydd cadwraeth ddigidol wrth symud ymlaen yn allweddol, wrth i lawer o gofnodion bellach gael eu llunio ar ffurf electronig yn unig.

**Cytunwyd** y gellir defnyddio'r arian wrth gefn ar gyfer hyfforddi o bosib i gefnogi cais o'r fath, ar gyfer y gwariant amcangyfrifedig a nodir uchod, pe gwneir cais o'r fath a bod hynny'n llwyddiannus.

Cyfarfodydd a Hyfforddiant Proffesiynol

Rhestrodd y gwahanol grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd y mae aelodau staff wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Ffïoedd a Thaliadau ar gyfer 2024/25

Cyfeiriodd at y tabl ffioedd a thaliadau ar gyfer y Gwasanaeth a manylodd ar y cynnydd canrannol a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2024.

**Mynediad at Gasgliadau'r Archifau**

**Manylodd ar yr arch**ifau amrywiol a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Staff

Dywedodd fod Katie Millien, Archifydd, wedi gadael y Gwasanaeth ym mis Ionawr, i ddechrau swydd gyda Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin, gyda chyfrifoldeb arbennig dros sefydlu gwasanaeth i ysgolion y sir honno. Roedd Katie yn aelod gwerthfawr iawn o'r tîm am dros un mlynedd ar bymtheg ac mae ei chyfraniad i waith y gwasanaeth, yn enwedig wrth sefydlu ein gwasanaeth ein hunain i ysgolion, yn anfesuradwy. Mae ei swydd wedi'i hysbysebu a gobeithio y bydd yn cael ei llenwi'n fuan.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Archifydd Sirol gyfleu neges o ddymuniadau gorau i Katie am ei rôl newydd a diolch am ei blynyddoedd o wasanaeth oddi wrthi hi a'r pwyllgor.

Amlinellodd hefyd fod angen cymeradwyaeth ar gyfer cefnogaeth barhaus i ariannu swydd yr Hyfforddai Archifau.

**Cytunwyd** y dylid cymeradwyo defnyddio'r gronfa hyfforddi i ariannu Hyfforddai Archifau ar gyfer 2024/25.

Yna siaradodd yr Archifydd Sirol ymhellach ynghylch y cyhoeddiad a wnaeth yn y cyfarfod diwethaf, gan amlinellu mai hwn oedd ei adroddiad olaf i'r cydbwyllgor cyn iddo ymddeol. Diolchodd i'r Pwyllgor am eu diddordeb a'u cefnogaeth dros yr ugain mlynedd diwethaf a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau bod gweithdrefnau hefyd ar waith i recriwtio ei olynydd, fel swydd amser llawn, fel y manylwyd yn gynharach yn adroddiad y gyllideb.

Amlinellodd a myfyriodd ar ei amser fel Archifydd Sirol a'i rolau blaenorol a nododd ei fod wedi mwynhau gweithio i'r gwasanaeth, a chyfeiriodd at rai uchafbwyntiau o'i gyfnod yn y swydd a oedd yn cynnwys prynu casgliad Gwaith Haearn Mynachlog Nedd a'i gydnabyddiaeth UNESCO o ganlyniad i hynny, ei syniad o ddatblygu tocyn

darllenwr Cerdyn Archifau ledled y DU a phrosiect Mapiau Degwm Cymru a'i rôl yn y prosiect hwnnw.

Dymunodd y gorau i'r aelodau staff a'i olynydd yn y dyfodol, yn enwedig wrth symud i'r Storfa yng nghanol y ddinas.

Yna talodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor gyfres o deyrngedau i Kim a diolchodd iddo am ei waith caled, ei angerdd, ei frwdfrydedd, ei ymroddiad a'i ymrwymiad i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd, a dymunodd ymddeoliad hir, hapus ac iach iddo.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.15 am

**Cadeirydd**